Cyngor Cymuned Dolbenmaen
Cofnodion cyfarfod BLYNYDDOL y Cyngor a gynhaliwyd ar y 2il o Fai 2019 am 7 pm yr hwyr yng Nghanolfan Prenteg.

1 Croesawu'r Cyhoedd – Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.

2 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd – Cynigiwyd Edward Evans i barhau fel Cadeirydd (Richard Parry yn cynnig a Clifford Williams yn eilio). Cynigiwyd Richard Williams yn is-Gadeirydd (Gwilym Evans yn cynnig a Huw Pritchard yn eilio).

3 Presennol - Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, Anwen Humphreys Clifford Williams– Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Dafydd Thomas – Penmorfa, Huw Pritchard Delyth Evans– Pentrefelin, Megan Ll Williams– Golan.

4 Ymddiheuriadau – Amanda N Owen, John Jones, Maldwyn Owen, Gwenno Huws, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

5 Ddim yn bresennol – neb.

6 Datgan Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018 – Dafydd Thomas yn datgan eu cywirdeb ac Anwen Humphreys yn eilio.

7 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion - Dim

8 Adroddiad Blynyddol y Cyngor

Cyflwynodd y Clerc adroddiad o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

9 Unllais Cymru – Cynrychiolwyr y Pwyllgor Rhanbarth

Cytunodd Dafydd Thomas a Megan Ll Williams i barhau i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor uchod.

10 Mabwysiadu Polisïau'r Cyngor

Adolygwyd a mabwysiadwyd y polisïau canlynol: Cynllun Iaith Cymraeg, Cod Ymddygiad, Cynllun Cyhoeddi, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol (gydag ychwanegiad o baragraff ar Daliadau i Gynghorwyr).

11 Llawr yn Agored – dim.